trobwynt
Rhannu'r ffydd Gristnogol gyda'n hieuenctid
Cylchlythyr
Rhifyn 4
Medi 2008

CIC Newydd yn Y Ffôr

Capel y Presbyteriaid yn Y Ffôr

Yr wythnos nesaf byddwn yn cynorthwyo i sefydlu grŵp CIC newydd yn Y Ffôr. Rydym yn falch iawn o fod yn rhan o hyn, ac yn edrych ymlaen i weld beth sydd gan Dduw ar gyfer y grŵp. Yn ystod y misoedd nesaf rydym yn gobeithio sefydlu CIC yng Nghricieth, ac hefyd yn trafod sefydlu CIC yn Nefyn. Bydd yr holl grwpiau CIC eraill yn ail-ddechrau y tymor hwn, a byddwn yn ymweld â nhw ac yn cefnogi y gwaith a wnânt. Mae CIC wedi ei anelu at bobl ifanc Bl. 7 a hŷn, felly os ydych yn adnabod person ifanc a hoffai fynychu, yna cysylltwch â ni ar y manylion cyswllt isod os gwelwch yn dda.

Cenadaethau ar y Traeth a Gwersylloedd Haf

Un o brif ddigwyddiadau'r haf oedd ymweld â'r cenadaethau Scripture Union ar y traeth yn Nefyn, Cricieth ac Abersoch. Efallai bod rhaid ohonoch yn meddwl beth yw cenhadaeth ar y traeth? Cenhadaeth ar y traeth yw pan ddaw tîm o oddeutu 30 o bobl at ei gilydd o wahanol lefydd ledled Prydain, am bythefnos yn ystod yr haf, i gynnal clybiau gwyliau ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n byw yn yr ardal ac i rai ar eu gwyliau. Bu gwaith y cenadaethau ar y traeth yn digwydd ers blynyddoedd bellach, ac maent yn gwneud gwahaniaeth mawr i fywydau rhai o'r plant a'r bobl ifanc sy'n eu mynychu.

Ymwelwyd hefyd â gwersyll arall yn Abererch sy'n gweithio â phlant a phobl ifanc o Abererch a Phwllheli. Roedd hi'n wych cael cyfarfod â'r tîm a'r bobl ifanc a fynychodd a chael gweld y gwaith y maent yn ei wneud yno. Bu'r gwersyll yma'n rhedeg ers blynyddoedd hefyd ac wedi gweld nifer o blant a fu'n mynychu y clwb plant yno yn tyfu i fyny drwy ei rhaglen ac yn parhau i fynychu fel oedolion ifanc heddiw.

Parhewch i weddïo dros waith y gwersylloedd hyn, dros yr arweinwyr ac aelodau'r tîmau a thros y plant a phobl ifanc sy'n eu mynychu.

Cyswllt - Connect

Grwpiau Astudiaethau Beiblaidd

Rydym yn dechrau dod i drefn unwaith eto gan fod y tymor newydd wedi dechrau, ac yn ail-ddechrau ein grwpiau unwaith eto. Rydym yn ail-lansio'r grwpiau cyswllt / connect y tymor hwn, a byddwn yn cyfarfod bob bythefnos. Mae'r grwpiau hyn wedi'u targedau ar gyfer pobl ifanc rhwng Bl. 9 hyd at oed 6ed Dosbarth yn y Coleg, ac maent yn nosweithiau o ddod ynghyd i astudio'r Beibl a gweddïo dros ein gilydd. Mae'r grwpiau hyn wedi eu cynllunio ar gyfer y rheiny sydd am astudio ymhellach, ac o bosib' am gael cyfle i holi cwestiynau ac i'r bobl ifanc rheiny nad ydynt yn cael y cyfle i fod yn rhan o grŵp astudiaeth Beiblaidd o fewn eu heglwys.

Mae gennym ddau grŵp, un a gynhelir trwy gyfrwng y Saesneg, ac un Cymraeg. Bob hanner tymor byddwn yn cael sesiwn lle byddwn yn uno'r ddau grŵp, mewn digwyddiad o'r enw '*Souled Out'* (sy'n gysylltiedig â digwyddiad '*Souled Out'* Coleg y Bala). Bydd y digwyddiad hwn yn agored hefyd i grwpiau ieuenctid eraill; bydd yn noson o gymdeithasu, gemau, addoli a dysgu. Os hoffech wybodaeth pellach am y digwyddiad hwn, yna cysylltwch â ni ar y manylion cyswllt isod os gwelwch yn dda.

Penwythnos www.MAD

Yn ddiwethaf, mynychwyd penwythnos ieuenctid a gaiff ei redeg gan bwyllgor ieuenctid Esgobaeth Anglicanaidd yn y Mynydd Cristnogol (*Christian Mountain)* yn Harlech. Enw'r penwythnos yw www.mad, a'i ystyr yw: '*water, wind, worship* a mawl, awel, dŵr. Mae plant ledled yr esgobaeth yn mynychu a chafwyd cyfanswm o 37 o bobl ifanc yn mynychu. Aeth 5 o'r ardal hon yno. Roedd y penwythnos yn cynnwys addysgu am Pedr a'r efengyl, band ieuenctid o Nottingham yn ein harwain mewn addoliad a dysgu, gemau a gweithgareddau, megis caiacio, canŵio, cerdded ceunant, dringo ac adeiladu rafftiau gan staff y CMC. Bu'r penwythnos yn lwyddiant ysgubol, er bod pawb yn gadael yno wedi llwyr ymlâdd!

Hoffech chi gefnogi trobwynt ?

Cysylltwch â'r Ysgrifennydd
Tabor
Llithfaen
Pwllheli
LL53 6NL Rhif Ffôn: 01758 750202